



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 990 (Cy.130)

Y GYMRAEG, CYMRU

Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Trosglwyddo
Swyddogaethau, Darpariaethau
Trosiannol a Chanlyniadol)
2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu swydd Comisiynydd y Gymraeg ac yn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Mesur hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd i'r Comisiynydd.

Mae adran 154 (Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc) o'r Mesur yn rhoi i Weinidogion Cymru y pwêr, drwy orchymyn, i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ganlyniadol a pha bynnag ddarpariaeth arall sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn angenrheidiol neu'n briodol mewn cysylltiad â'r Mesur neu i roi llwyr effaith iddo.

Mae is-adran (3) o adran 143 (Diddymu'r Bwrdd a throsglwyddo swyddogaethau) o'r Mesur yn rhag-weld y caiff Gweinidogion Cymru, mewn gorchymyn a wneir o dan adran 154 o'r Mesur, wneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo'r swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd gan adran 3 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i Weinidogion Cymru, naill ai yn lle trosglwyddo'r swyddogaethau i'r Comisiynydd neu'n ychwanegol at hynny. Prif swyddogaeth y Bwrdd o dan adran 3 yw'r swyddogaeth o hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan adran 154 o'r Mesur. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd, yn gwneud darpariaethau trosiannol ynglŷn â datganiad o gyfrifon ac adroddiad blynyddol olaf y Bwrdd ac yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth arall o ganlyniad i ddarpariaethau'r Mesur.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 990 (W.130)

WELSH LANGUAGE, WALES

The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Transfer of
functions, Transitional and
Consequential Provisions) Order
2012

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 creates the office of the Welsh Language Commissioner and abolishes the Welsh Language Board. The Measure also provides for the transfer of the Board's functions to the Commissioner.

Section 154 (Transitional and consequential provision etc) of the Measure gives the Welsh Ministers the power, by order, to make transitional, consequential and such other provision as they think necessary or appropriate in connection with, or to give full effect to the Measure.

Section 143 (Abolition of Board and transfer of functions), subsection (3) of the Measure envisages that the Welsh Ministers may, in an order made under section 154 of the Measure, provide for the functions conferred on the Board by section 3 of the Welsh Language Act 1993 to be transferred to the Welsh Ministers, whether instead of, or in addition to, the functions being transferred to the Commissioner. The Board's principal function under section 3 is the function of promoting and facilitating the use of the Welsh language.

This Order is made under section 154 of the Measure. It makes provision about the transfer of the Board's functions, makes transitional provisions in relation to the Board's final statement of accounts and annual report and makes amendments which are consequential upon the Measure to other legislation.

Mae erthygl 3 yn darparu bod y swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd gan adran 3 o Ddeddf 1993, i'w trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn ychwanegol at eu trosglwyddo i'r Comisiynydd. Golyga hyn y bydd y Comisiynydd a Gweinidogion Cymru yn arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd gan adran 3 o Ddeddf 1993. Mae paragraff 3 o Atodlen 12 i'r Mesur yn darparu, os trosglwyddir y swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd o dan adran 3 o Ddeddf 1993 i Weinidogion Cymru, na fydd y darpariaethau canlynol o Ddeddf 1993 yn gymwys i'r swyddogaethau fel y byddant yn arferadwy gan Weinidogion Cymru, sef adran 3(2)(a) (darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg), adran 3(3) a (4) (pwerau i roi grantiau neu fenthyciadau ayyb ynghyd â chyfyngiadau ar y pwerau hynny) ac adran 4(1) (dyletswydd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru).

Mae erthyglau 4 a 5 yn darparu ynglŷn â llunio ac archwilio datganiad o gyfrifon y Bwrdd mewn perthynas â blwyddyn ariannol olaf y Bwrdd (sef o 1 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012) ac ynglŷn â llunio adroddiad blynyddol y Bwrdd ynghylch y modd yr arferodd ei swyddogaethau yn ystod yr un cyfnod.

Mae erthyglau 6 i 13 yn diwygio eitemau penodol o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, naill ai er mwyn hepgor cyfeiriadau at y Bwrdd neu'u disodli gan gyfeiriadau at y Comisiynydd fel y bo'n briodol ym mhob achos unigol.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Gorchymyn hwn wedi ei baratoi a gellir cael copi ohono gan Uned yr Iaith Gymraeg, Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Article 3 provides that the functions conferred upon the Board by section 3 of the 1993 Act transfer to the Welsh Ministers in addition to being transferred to the Commissioner. This means that both the Commissioner and the Welsh Ministers will exercise the functions conferred upon the Board by section 3 of the 1993 Act. Paragraph 3 of Schedule 12 to the Measure provides that, if the functions conferred upon the Board under section 3 of the 1993 Act are transferred to the Welsh Ministers, the following provisions of the 1993 Act do not apply to the functions as they are exercisable by the Welsh Ministers, namely section 3(2)(a) (provision of advice to the Welsh Ministers on matters concerning the Welsh language), section 3(3) and (4) (powers to make grants or loans etc as well as restrictions on those powers) and section 4(1) (duty to comply with directions given by the Welsh Ministers).

Articles 4 and 5 provide for the preparation and audit of the Board's statement of accounts and the preparation of its annual report on the exercise of its functions in relation to its final financial year (namely from 1 April 2011 to 31 March 2012).

Articles 6 to 13 amend specified primary and secondary legislation, either to omit references to the Board or to substitute references to the Board with references to the Commissioner, as is appropriate in each case.

A Regulatory Impact Assessment for this Order has been prepared and a copy can be obtained from the Welsh Language Unit, Department for Education and Skills, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2012 Rhif 990 (Cy.130)

2012 No. 990 (W.130)

Y GYMRAEG, CYMRU

WELSH LANGUAGE, WALES

**Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Trosglwyddo
Swyddogaethau, Darpariaethau
Trosiannol a Chanlyniadol)
2012**

**The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Transfer of
functions, Transitional and
Consequential Provisions) Order
2012**

Gwnaed 29 Mawrth 2012

Made 29 March 2012

Yn dod i rym 1 Ebrill 2012

Coming into force 1 April 2012

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 150(2)(k) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(1) a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

A draft of this Order was laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales in accordance with section 150(2)(k) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011(1).

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 150(5) ac adran 154 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred upon them by section 150(5) and section 154 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 makes the following Order:

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012.

1.—(1) The title of this Order is the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Transfer of functions, Transitional and Consequential provisions) Order 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2012.

(2) This Order comes into force on 1 April 2012.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 1993" ("1993 Act") yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993(2).

2. In this Order "1993 Act" ("Deddf 1993") means the Welsh Language Act 1993(2).

Trosglwyddo'r swyddogaethau yn adran 3 o Ddeddf 1993

Transfer of functions in section 3 of the 1993 Act

3. Trosglwyddir y swyddogaethau a roddwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan adran 3 o Ddeddf 1993 i Weindogion Cymru (yn ychwanegol at eu trosglwyddo i Gomisiynydd y Gymraeg gan adran 143(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

3. The functions conferred on the Welsh Language Board by section 3 of the 1993 Act are transferred to the Welsh Ministers (in addition to being transferred to the Welsh Language Commissioner by section 143(2) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011).

(1) 2011 mccc 1

(2) 1993 p.38.

(1) 2011 nawm 1

(2) 1993 c.38.

Darpariaethau Trosiannol

Datganiad o gyfrifon olaf Bwrdd yr Iaith Gymraeg

4.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio datganiad o gyfrifon mewn perthynas â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2011 hyd 31 Mawrth 2012.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r datganiad o gyfrifon at Archwilydd Cyffredinol Cymru heb fod yn hwyrach na 31 Awst 2012.

(3) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio, ardstyio ac adrodd ar y datganiad o gyfrifon a gosod copïau o'r datganiad a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adroddiad blynyddol olaf Bwrdd yr Iaith Gymraeg

5.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar y modd yr arferodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2011 hyd 31 Mawrth 2012.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Diwygiadau Canlyniadol

Deddf Llywodraeth Cymru 1998

6. Yn Rhan I (Cyrff a allai gollu neu ennill swyddogaethau) o Atodlen 4 (Cyrff cyhoeddus a allai gael eu diwygio gan y Cynulliad) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1), hepgorer paragraff 13.

Deddf Safonau Gofal 2000

7. Ym mharagraff 23 o Atodlen 2A (Personau sy'n destun adolygiad gan y Comisiynydd o dan adran 72B) i Ddeddf Safonau Gofal 2000(2), yn lle "The Welsh Language Board." rhodder "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner)."

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

8. Yn Rhan VI (Cyrff a swyddi cyhoeddus eraill : cyffredinol) o Atodlen 1 (Awdurdodau cyhoeddus) i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000(3), hepgorer "The Welsh Language Board." a mewnosoder yn y man priodol "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner)."

(1) 1998 p.38.

(2) 2000 p.14. Mewnosodwyd y cyfeiriad at Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan adran 3(2) o Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (p. 18) a'r Atodlen iddi.

(3) 2000 p. 36.

Transitional provisions

Final statement of accounts of the Welsh Language Board

4.—(1) The Welsh Ministers must prepare a statement of accounts in respect of the Welsh Language Board for the period 1 April 2011 to 31 March 2012.

(2) The Welsh Ministers must send a copy of the statement of accounts to the Auditor General for Wales not later than 31 August 2012.

(3) The Auditor General for Wales must examine, certify and report on the statement of accounts and must lay copies of the statement and of the report before the National Assembly for Wales.

Final annual report of the Welsh Language Board

5.—(1) The Welsh Ministers must prepare a report on the discharge by the Welsh Language Board of its functions during the period 1 April 2011 to 31 March 2012.

(2) The Welsh Ministers must lay a copy of the report before the National Assembly for Wales.

Consequential amendments

Government of Wales Act 1998

6. In Part I (Bodies which may lose or gain functions) of Schedule 4 (Public bodies subject to reform by Assembly) to the Government of Wales Act 1998(1), omit paragraph 13.

Care Standards Act 2000

7. In paragraph 23 of Schedule 2A (Persons subject to review by the Commissioner under section 72B) to the Care Standards Act 2000(2), for "The Welsh Language Board." substitute "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner)."

Freedom of Information Act 2000

8. In Part VI (Other public bodies and offices: general) of Schedule 1 (Public authorities) to the Freedom of Information Act 2000(3), omit "The Welsh Language Board." and insert in the appropriate place "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner)."

(1) 1998 c.38.

(2) 2000 c.14. The reference to the Welsh Language Board was inserted by section 3(2) of, and the Schedule to, the Children's Commissioner for Wales Act 2001 (c. 18).

(3) 2000 c. 36.

Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005

9. O dan y pennawd "Miscellaneous" yn Atodlen 3 (Awdurdodau rhestredig) i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005(1), yn lle "The Welsh Language Board." rhodder "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner).".

Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006

10. O dan y pennawd "Miscellaneous" yn Atodlen 2 (Personau sydd a'u swyddogaethau yn destun adolygiad o dan adran 3) i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006(2), yn lle "The Welsh Language Board." rhodder "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner).".

Deddf Cydraddoldeb 2010

11. O dan y pennawd "Other public authorities" yn Rhan 2 (Awdurdodau cyhoeddus: awdurdodau Cymreig perthnasol) o Atodlen 19 (Awdurdodau cyhoeddus) i Ddeddf Cydraddoldeb 2010(3), yn lle "The Welsh Language Board or Bwrdd yr Iaith Gymraeg." rhodder "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner).".

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

12. Yn adran 16 (Ystyr "rheoleiddwyr perthnasol" a "swyddogaethau perthnasol") Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(4), yn lle paragraff (d) o is-adran (2) rhodder "(d) Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer swyddogaethau o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p. 38) (ymchwiliadau);".

Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007

13. Yn rheoliad 7 (Ymgynghoriad) o Reoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007(5) yn lle is-baragraff (f) o baragraff (2) rhodder "(f) Comisiynydd y Gymraeg;".

Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005

9. Under the heading "Miscellaneous" in Schedule 3 (Listed authorities) to the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005(1), for "The Welsh Language Board." substitute "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner).".

Commissioner for Older People (Wales) Act 2006

10. Under the heading "Miscellaneous" in Schedule 2 (Persons whose functions are subject to review under section 3) to the Commissioner for Older People (Wales) Act 2006(2), for "The Welsh Language Board." substitute "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner).".

Equality Act 2010

11. Under the heading "Other public authorities" in Part 2 (Public authorities: relevant Welsh authorities) of Schedule 19 (Public authorities) to the Equality Act 2010(3), for "The Welsh Language Board or Bwrdd yr Iaith Gymraeg." substitute "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner).".

Local Government (Wales) Measure 2009

12. In section 16 (Meaning of "relevant regulators" and "relevant functions") of the Local Government (Wales) Measure 2009(4), for paragraph (d) of subsection (2) substitute "(d) the Welsh Language Commissioner in the exercise of functions under section 17 of the Welsh Language Act 1993 (c. 38) (investigations);".

The Children and Young People's Plan (Wales) Regulations 2007

13. In regulation 7 (Consultation) of the Children and Young People's Plan (Wales) Regulations 2007 (5) for sub-paragraph (h) of paragraph (2) substitute "(h) the Welsh Language Commissioner;".

(1) 2005 p. 10.

(2) 2006 p. 30.

(3) 2010 p. 15. Mewnosodwyd y cyfeiriad at 'Welsh Language Board or Bwrdd yr Iaith Gymraeg' gan O.S. 2011/1063 (Cy.154), erthygl 2 is-baragraff (ch).

(4) 2009 mccc 2.

(5) O.S. 2007/2316 (Cy.187)

(1) 2005 c. 10.

(2) 2006 c. 30.

(3) 2010 c. 15. The reference to 'the Welsh Language Board or Bwrdd yr Iaith Gymraeg' was inserted by S.I. 2011/1063 (W.154), article 2 sub-paragraph (d).

(4) 2009 nawm 2.

(5) S.I. 2007/2316 (W.187)

Leighton Andrews

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion
Cymru

29 Mawrth 2012

Minister for Education and Skills, one of the Welsh
Ministers

29 March 2012

©[©] Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office
Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei
Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the
authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's
Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 990 (Cy.130)

Y GYMRAEG, CYMRU

Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Trosglwyddo
Swyddogaethau, Darpariaethau
Trosiannol a Chanlyniadol)
2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 990 (W.130)

WELSH LANGUAGE, WALES

The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Transfer of
functions, Transitional and
Consequential Provisions) Order
2012